

Swyddfa dros Reoli Niwclear (ONR) Adroddiad Safle Chwarterol Trawsfynydd

Adroddiad am y cyfnod 01 Gorffennaf 2013 – 30 Medi 2013

Rhagair

Cyhoeddir yr adroddiad hwn fel rhan o ymrwymiad ONR i drefnu bod gwybodaeth am weithgareddau arolygu a rheoleiddio ynghylch y safle uchod ar gael i'r cyhoedd. Dosbarthir adroddiadau'n chwarterol i aelodau'r fforwm a maent ar gael hefyd ar y wefan ONR. (www.hse.gov.uk/nuclear/lrc).

Fel arfer mae arolygwyr safle o ONR yn mynychu cyfarfodydd Grŵp Rhanddeiliaid Safle Trawsfynydd (SSG) a byddant yn ymateb i unrhyw gwestiynau a godir yno. Dylai unrhyw unigolyn sy'n dymuno gofyn am faterion a gynhwysir yn yr adroddiad hwn gysylltu ag ONR.

1 AROLYGIADAU

Dyddiadau arolygu

Gwnaeth arolygydd safle ONR arolygiadau ar y dyddiadau dilynol yn ystod y chwarter:

- 28 Awst;
- 30 Medi i 3 Hyfref.

2 MATERION ARFEROL

Arolygiadau

Ymgwymerir ag arolygiadau fel rhan o'r broses ar gyfer monitro cydymffurfiad ag:

- Yr amodau a gysylltir gan HSE / ONR â'r drwydded safle niwclear a roddir dan Ddeddf Safleoedd Niwclear 1965 (NIA65) (fel y'i diwygiwyd);
- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 (HSA74); a
- Rheoliadau a wnaed dan HSA74, er enghraifft Rheoliadau Ymbelydriadau Ioneiddio 1999 (IRR99) a Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 (MHSWR99).

Mae'r arolygiadau'n golygu monitro gweithredoedd y trwyddedai ar y safle mewn cysylltiad â digwyddiadau, gweithrediadau, gwaith cynnal, prosiectau, addasiadau, newidiadau achos diogelwch ac unrhyw faterion eraill a allai effeithio ar ddiogelwch. Mae'n ofynnol i'r trwyddedai wneud a gweithredu trefniadau digonol dan yr amodau a gysylltir â'r drwydded er mwyn sicrhau cydymffurfiad â'r gyfraith. Mae arolygiadau'n ceisio barnu digonolrwydd y trefniadau hyn a'u gweithredu fel ei gilydd. Yn ystod y cyfnod hwn, cynhwysodd arolygiadau arferol ar Drawsfynydd yr eitemau dilynol.

- Rheoli gweithrediadau, gan gynnwys gwirio a goruchwyllo;
- Hyfforddiant, cymwysterau a phrofiad staff.

Ar ben hynny, gwnaed arolygiad manwl ar weithredu a chynnal y Storfa Gwastraff Lefel Ganolraddol (ILW). Roedd hwn yn rhan o raglen ONR o arolygiadau system ym mhob safle trwyddededig niwclear.

Yn gyffredinol, barnodd ONR fod y trefniadau a wnaed ac a weithredwyd gan y safle mewn ymateb i ofynion diogelwch yn ddigonol yn y meysydd a arolygwyd. Roedd gan y safle system arbennig o dda ar gyfer cofnodi a monitro cymwysterau a phrofiad ei bersonél. Lle ystyriwyd bod angen gwelliannau, gwnaeth y trwyddedai ymrwymadau bodhaol i fynd i'r afael â'r problemau, a bydd yr arolygydd safle'n monitro cynnydd yn ystod ymweliadau'r dyfodol. Lle bydd angen, bydd ONR yn cymryd camau gweithredu gorfodi ffurfiol rheoleiddiol er mwyn sicrhau y gweithredir mesurau adferol priodol yn ôl amserlenni rhesymol o ymarferol.

Gwaith arall

Cynhaliodd yr arolygydd safle gyfarfod cyfnodol gyda chynrychiolwyr diogelwch, er mwyn cefnogi eu swyddogaeth o gynrychioli cyflogeion a derbyn gwybodaeth ar faterion yn effeithio ar eu hiechyd, diogelwch a lles yn y gwaith.

3 MATERION ANARFEROL

Mae angen i drwyddedeion sicrhau trefniadau i ymateb i faterion a digwyddiadau anarferol. Mae arolygwyr yn barnu digonolrwydd ymateb y trwyddedai, gan gynnwys camau gweithredu a gymerir i weithredu unrhyw welliannau angenrheidiol.

Roedd un mater o bwys yn ystod y cyfnod. Achosodd gweithrediad i gymryd sampl o ddŵr tywallt ar 15 Gorffennaf 2013 i'r gweithredwr gael ei halogi'n allanol. Roedd y dos o halogiad y croen yn isel, a chadarnhaodd monitro biolegol nad oedd halogi mewnol. Amcangyfrifwyd bod oddeutu 1 litr o ddeunydd (slwtsh ILW) wedi'i ryddhau i leoliad yr offer yn ystod y digwyddiad. Mae lleoliad yr offer yn cynnwys nodweddion ynysu, felly ynyswyd y deunydd ac nid oedd gollyngiad i'r amgylchedd.

Gwnaeth y trwyddedai ymchwiliad i'r digwyddiad, a ddatgelodd nifer o fethiannau yn eu prosesau ar gyfer asesu risg a chomisiynu, gan adnabod hefyd rhai problemau diwylliannol. Mae'r trwyddedai wedi datblygu cynllun gweithredu i drafod y problemau a adnabyddwyd, ac mae'n ystyried sut i drafod y problemau diwylliannol yn y tymor hwy. Bydd ONR yn monitro diweddglo'r cynllun gweithredu.

4 GWEITHGARWCH RHEOLEIDDIO

Dan ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch, gall arolygwyr safle ONR, arolygwyr arbenigol ac arolygwyr HSE eraill gyhoeddi dogfennau ffurfiol er mwyn sicrhau cydymffurfiaid â gofynion rheoleiddiol. Dan amodau trwydded safle niwclear, mae ONR yn cyhoeddi dogfennau rheoleiddiol, sydd naill ai'n caniatáu gweithgaredd neu'n mynnu bod rhyw fath o gamau gweithredu'n cael eu cymryd; fel arfer gelwir y rhain yn 'offer y drwydded' (LI) yn gasgliadol, ond gallant gymryd ffurfiau eraill. Ar ben hynny, gall arolygwyr gyhoeddi hysbysiadau gorfodi er mwyn sicrhau gwelliannau i ddiogelwch.

Ni chyhoeddwyd LI's na hysbysiadau gorfodi yn ystod y cyfnod.

5 NEWYDDION GAN ONR

Gellir gweld cipolwg ar waith ONR fel rheoleiddiwr annibynnol y diwydiant niwclear yn Newyddion Chwarterol ONR. Mae'r cyhoeddiad ar-lein (www.hse.gov.uk/nuclear/onr-quarterly-report.htm) yn adrodd am themâu a datblygiadau allweddol ym mhob un o raglenni rheoleiddio ONR ac yn darparu diweddariad ar y newidiadau parhaol yn ONR, wrth iddo gynyddu tuag at ddod yn gorfforiaeth statudol annibynnol. www.hse.gov.uk/nuclear/index.htm. I gael y newyddion a diweddariadau diweddaraf gan ONR ewch i'r wefan a llofnodwch am ein e-fwletin (www.hse.gov.uk/nuclear/ebulletin/index.htm).

6 CYSYLLTIADAU

Swyddfa dros Reoli Niwclear
Redgrave Court
Merton Road
Bootle
Glannau Mersey
L20 7HS

gwefan: www.hse.gov.uk
e-bost: ONREnquiries@hse.gsi.gov.uk

Cyhoeddir y ddogfen hon gan y Swyddfa dros Reoli Niwclear (ONR), asiantaeth HSE. I gael rhagor o wybodaeth am ONR, neu i adrodd am anghysondebau neu anghywirdebau yn y cyhoeddiad hwn ewch i www.hse.gov.uk/nuclear.

© Hawlfraint y Goron 2013

Gallwch aildefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio logos) yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/, ysgrifennu i'r Tîm Polisi Gwybodaeth, Yr Archifau Gwladol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu e-bostio psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Efallai nad yw'r Goron yn berchen ar rai delweddau a darluniadau felly ni ellir eu hatgynhyrchu heb ganiatâd perchennog yr hawlfraint. Dylid anfon ymholiadau i copyright@hse.gsi.gov.uk.

Ar gyfer dogfennau cyhoeddedig, mae'r copi electronig ar y wefan ONR yn dal i fod y fersiwn mwyaf cyfredol sydd ar gael i'r cyhoedd ac mae copïo neu brintio'n golygu nas rheolir y ddogfen hon.